**Atodiad A**

# SIART LLIF DATGELU CAMARFER

Mae gweithiwr yn mynegi pryder gyda'i reolwr llinell, rheolwr uwch neu Swyddog Datgelu Camarfer penodedig. Mae'r unigolyn hwn fel arfer yn dod yn 'Swyddog Cyswllt', ond gall fod yn rhywun arall os ceir cydsyniad y gweithiwr.

Mae'r Swyddog Cyswllt yn ymchwilio i bryderon gyda'r unigolyn ac yn ystyried a ydynt yn dod o dan 1 neu fwy o'r 7 categori o ddatgeliad gwarchodedig (gweler y blwch ar y llaw dde) ac er budd y cyhoedd.

Datgeliad gwarchodedig:
- Tramgwyddau troseddol
- Torri rhwymedigaeth gyfreithiol
- Camweinyddu cyfiawnder
- Perygl i Iechyd a Diogelwch unigolyn
- Niwed i'r amgylchedd
- Aflonyddu rhywiol yn y gweithle
- Celu gwybodaeth am yr uchod yn fwriadol

Os ydynt

Os yw'r pryderon yn ymwneud â chyflogaeth y gweithiwr ei hun gyda'r awdurdod **ac** yn **'ddatgeliad gwarchodedig',** dylid cadw at egwyddorion y weithdrefn datgelu camarfer ochr yn ochr â gweithdrefn a pholisi perthnasol Adnoddau Dynol.

Rhowch wybod i'r Swyddog Monitro yn y tîm Gweinyddiaeth a'r Gyfraith fod cwyn ar ffurf datgelu camarfer wedi cael ei gwneud a cheisiwch gymorth ynghylch beth i'w wneud nesaf.

Gallai'r pryderon:
- Fod yn destun ymchwiliad mewnol yn unol â Pholisi Ymchwiliadau y Cyngor
- Cael eu cyfeirio at yr heddlu
- Cael eu cyfeirio at Swyddfa Archwilio Cymru
- Bod yn destun ymchwiliad annibynnol.

Os nad ydynt

Os yw'r pryderon yn ymwneud â chyflogaeth y gweithiwr ei hun gyda'r awdurdod **ac os nad yw'n ddatgeliad gwarchodedig,** dylid cynghori'r unigolyn i siarad â'i **reolwr llinell** yn unol â chanllawiau Achwyniadau neu Safonau Ymddygiad y Cyngor, fel y bo'n briodol.

Bydd y Swyddog Cyswllt yn cydnabod pryderon yr unigolyn ac o fewn 14 diwrnod yn:
- nodi sut yr ymdrinnir â'r mater
- rhoi amcan o ran faint o amser a gymerir i ymchwilio i'r pryderon
- rhoi gwybod a oes unrhyw ymholiadau cychwynnol wedi bod;
- cadarnhau a fydd ymchwiliad llawn yn cael ei gynnal, ac os na fydd, pam.

Bydd y Swyddog Cyswllt yn cytuno â'r gweithiwr sut y bydd yn cysylltu ag ef/hi a pha mor aml er mwyn rhoi adborth ynghylch cynnydd yr ymchwiliad, gan gadarnhau cyfyngiadau o ran cyfrinachedd a diogelu data yn y broses.

Bydd y Swyddog Cyswllt yn rhoi gwybod i'r unigolyn am ganlyniad y gŵyn, ynghyd â chopi o'r ffurflen adborth, o fewn 14 diwrnod calendr ar ôl diwedd yr ymchwiliad.

Bydd y Swyddog Cyswllt yn rhoi gwybod i'r Swyddog Monitro am ganlyniad y gŵyn.